

ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD MAWRTH 2017



Ymweliadau Pontio

Mae Mrs. Lyn Parry Hughes yn parhau i ymweld ag ysgolion cynradd y dalgylch fel rhan o'r cynllun pontio. Mae nifer o ddisgyblion Blwyddyn 7 wedi ymuno â Mrs. Hughes ar yr ymweliadau ac wedi cael cyfle i sgwrsio gyda disgyblion Bl.6 am fywyd a gwaith ym Mlwyddyn 7 Ysgol Eifionydd. Heb os bydd hyn o gymorth mawr iddynt fis Medi nesaf.



Teithiodd Clwb Drama yr ysgol i set 'Rownd a Rownd' p'nawn Mercher, 15^{fed} o Fawrth. Cafodd y disgyblion y cyfle i gerdded o amgylch y set, gweld gwisgoedd rhai o'r cymeriadau a chael y cyfle i weld un lleoliad newydd sbon y gyfres. Profiad a phrynhawn gwerth chweil i Miss Llio Dudley a'r criw.



Cafodd Llysgennad Sky Sports Living am Chwaraewr Gwledydd Cartref y flwyddyn Philipa Tuttiett ei chrosawu i Ysgol Eifionydd dydd Iau 16^{eg} o Fawrth i rannu ei llwyddiannau gyda genod Bl.7, 8, 9 a 10. Mwynhaodd y genod sesiwn hyfforddi hefyd.




Aeth criw o ddisgyblion 5x60 yr ysgol ar ymweliad i 'Bounce Below' Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog dydd Llun, 20^{fed} o Fawrth. Bu i'r disgyblion fwynhau cyfnod difyr a hwyliog yn neidio a chadw'n heini ar y rhwydi yn yr hen geudyllau llechi.

Gweithdy Cyfiawnder mewn Diwrnod / Justice in a Day i ddisgyblion blwyddyn 9 ar y 24^{ain} o Fawrth gyda disgyblion o Ysgol Dyffryn Nantlle.

'Ar y 23^{ain} o Fawrth cawsom y cyfle i weld prosiect Cyfiawnder mewn Diwrnod yng Nghaernarfon. Yma, roeddem yn cael blas ar ambell i yrfa yn ymwneud â'r gyfraith wrth weld achos troseddol yn cael ei ail-greu gan Theatr Clwyd. Roedd y diwrnod yn dilyn achos cyn i'r drosedd ddigwydd, gan edrych ar y rhesymau pam, y drosedd yn digwydd ac wedyn beth oedd yn digwydd unwaith roedd yr unigolyn yn cael ei drosglwyddo i ddwylo'r heddlu. Cawsom weld sut oedd yr heddlu yn mynd ati i drin unigolyn o dan 18 ac ymchwilio i mewn i'r achos. Wrth i'r dydd fynd yn ei flaen, roedd yr achos yn datblygu ac nid yn unig roeddem yn gweld agweddau cyfreithiol yr achos ond hefyd y straen emosiynol ar y bobl oedd yn rhan ohono. Ar ddiwedd y dydd cawsom ymweld â Llys y Goron Caernarfon a bod yn rhan o ail-greu'r achos yn y llys a gweld beth ddigwyddodd i'r unigolyn a'i fywyd wedyn. Fe wnaethom i gyd fwynhau'r diwrnod ac yn sicr roedd yn agoriad llygad i ni gyd.' Anest Edwards Bl.9.





Cwrs Success Adolygu at Arholiadau

Bl.11 – Dydd Gwener, 24^{ain} o Fawrth cynhaliwyd gweithdy adeiladol i ddatblygu meddylfryd positif tuag at adolygu ar gyfer disgyblion blwyddyn 11. Cyflwynwyd dulliau amrywiol o adolygu yn effeithiol a oedd o gymorth mawr. Ar ddiwedd y gweithdy cwblhaodd y disgyblion holiadur yn rhoi adborth ac roedd yr adborth yn hynod bositif ac yn cytuno fod y gweithdy wedi bod yn werthfawr iawn iddynt.



Pentre Peryglus

Ddydd Iau, Mawrth 30^{ain} treuliodd disgyblion o flwyddyn 7 y dydd ym Mhentre Peryglon, Llanellwy. Mae'r tŷ sydd yno yn codi ymwybyddiaeth o beryglon sydd o'n cwmpas mewn tai, ar y ffordd ac ar y traeth. Bu i'r disgyblion ymateb yn wych a chawsant fudd mawr o'r diwrnod.

Ar y 24ain o Fawrth i gefnogi'r apêl Comic Relief cawsom ddigwyddiad llwyddiannus iawn drwy gynnal cwis yn ystod yr awr ginio rhwng disgyblion blwyddyn 11 a'r athrawon i godi arian tuag at yr achos. Bu i'r disgyblion ymfalchïo yn eu llwyddiant o ennill yr athrawon a llwyddwyd i godi £125.71. Da iawn chi.

URDD

Ddydd Sadwrn, Ebrill y 1^{af} cynhaliwyd Eisteddfod Sir yr Urdd yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Llongyfarchiadau gwresog i'r rhai a gymerodd ran ac ar eu llwyddiant. Pob dymuniad da i'r cystyadluewyr buddugol wrth iddynt gynrychioli Eryri yn Eisteddfod yr Urdd Ym Mhen-y-Bont ar Ogwr yn ystod gwyliau'r Sulgwyn. Dyma'r canlyniadau llwyfan:

Ensemble Lleisiol 7-9 - Parti Emma - Emma Buckley, Megan Jones, Holly Jones (Bl.7) 1af

Unawd Telyn - Emma Buckley (Bl.7) 1af

Unawd Piano - Emma Buckley (Bl.7) 3ydd

Alaw Werin 7-9 - Anest Edwards (Bl.9) 2il

Unawd Cerdd dant -

Nel Evans (Bl.8) 2il

Anest Edwards (Bl.9) 3ydd

Dawns Hip Hop /Stryd/Disgo Bl. 7, 8 a 9 – Non Meleri Jones (Bl. 8) 3ydd